# AC(2) 03-05(p4)

## Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Gronfeydd Strwythurol yr UE: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru: Adroddiad Pwyllgor (2) 09-04

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad. Rydym yn gwerthfawrogi'r casgliadau ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r argymhellion a wnaed.

### Argymhellion

**i) Bod WEFO yn manteisio ar yr amser ychwanegol sy'n deillio o ohirio'r gwaith a oedd yn yr arfaeth o uwchraddio'r system gyfrifiadurol i gyflwyno'r system ddiweddaraf sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion rhaglenni yn y dyfodol.**

### Cytuno

Mae Bwrdd Rhaglen Merlin wedi dewis system gyfrifiadurol newydd WEFO fel un o'r prosiectau Merlin cyntaf i gael ei weithredu. Bydd gwaith ar y prosiect yn dechrau ym mis Ionawr 2005 a bydd y systemau newydd ar waith erbyn Tachwedd 2006 (mewn pryd ar gyfer y Rhaglenni newydd).

Bydd y prosiect yn cael ei reoli'n dynn trwy ddefnyddio methodoleg PRINCE, sy'n cynnwys elfennau fel Bwrdd Llywio'r Prosiect ar lefel uwch; cerrig milltir; a grwp defnyddwyr ayb. Yn ogystal, bydd Bwrdd Rhaglen Merlin yn craffu ar hynt y prosiect yn rheolaidd (adolygiadau Porth).

Wrth ddatblygu'r prosiect dros y ddwy flynedd nesaf, bydd WEFO a Merlin yn ystyried y prosesau busnes a'r system gyfrifiadurol sydd eu hangen i weithredu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn effeithiol ac yn effeithlon. Y nod yw gwneud yr holl brosesau'n hawdd eu defnyddio (tra'n cydymffurfio â gofynion y CE ar gyfer y Rhaglenni presennol ac yn y dyfodol) a darparu'r systemau diweddaraf a fydd yn caniatáu i noddwyr y prosiect gyflwyno ceisiadau a hawliadau etc trwy'r we fyd-eang.

**ii) Bod WEFO yn awr yn cyflymu'r broses drwy gyflwyno "prosiectau enghreifftiol" ac yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcan o ddatblygu wyth prosiect o'r fath erbyn 2005.**

### Cytuno'n rhannol

Mae gwaith wedi bod yn parhau ar gomisiynu prosiectau trwy ddatblygu prosiectau enghreifftiol a strategol.

Mae tri phrosiect enghreifftiol yn mynd rhagddynt yn dda. Cyflwynwyd un prosiect strategol mawr sy'n

cael ei arfarnu'n ffurfiol ar hyn o bryd, ac mae gwaith datblygu ar bedwar prosiect arall bron â'i gwblhau. Dylai'r holl brosiectau hyn fod yn barod i'w harfarnu yn 2005.

Fodd bynnag, bydd y gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael a'r angen i sicrhau bod y prosiectau'n cydymffurfio â rheoliadau cymorth y wladwriaeth (sy'n dod yn fwy o gyfyngiad) yn cyfyngu ar y cyfle i ddatblygu prosiectau eraill ar gyfer y Rhaglenni presennol. Serch hynny, bydd WEFO yn mynd ati i ystyried sut i fwrw ymlaen â'r prosiectau enghreifftiol/strategol, yn barod ar gyfer dechrau'r Rhaglenni newydd yn 2007, pan fydd yn pennu manylion y Rhaglenni newydd yn ystod 2005.

**iii) Bod WEFO yn adolygu ei tharged o ran amserau arfarnu er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ddiffinio'n glir, yn fesuradwy, yn realistig ond hefyd yn heriol.**

**Cytuno**

Mae WEFO wrthi'n adolygu'r targed ar gyfer amserau arfarnu, gan roi sylw arbennig i'r angen i sicrhau bod targedau'n ystyrlon i'r ymgeiswyr. Bydd y canllawiau presennol i ymgeiswyr yn cael eu cryfhau i esbonio sut y dylent fynd ati i wirio bod eu cais yn gyflawn ac wedi'i baratoi'n dda cyn ei gyflwyno. Fel rhan o'r adolygiad, bydd WEFO'n ystyried hefyd sut orau i hysbysu ymgeiswyr am unrhyw ddatblygiadau. Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2005.

**iv) Argymhellwn fod WEFO yn cymryd camau er mwyn mynd i'r afael â'r ymweliadau monitro prosiectau fel ei bod yn cyrraedd y targed o ddeg y cant cyn gynted â phosibl.**

**Cytuno**

Mae WEFO wedi gwneud cynnydd da ar yr ymweliadau monitro prosiectau, ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged i ymweld â 10% o'r prosiectau sydd ar waith erbyn diwedd Mawrth 2005.

**v) Argymhellwn fod WEFO yn cynnwys yr archwiliadau allanol o brosiectau yn y dull seiliedig ar risg o fonitro a rheoli prosiectau y mae'n bwriadu ei ddatblygu.**

**Cytuno**

Os yw'r tystysgrifau archwilio allanol yn cynnwys eithriadau sylweddol, caiff yr eithriadau hyn eu hymgorffori yn y dull seiliedig ar risg sydd eisoes ar waith i ddewis prosiectau ar gyfer ymweliadau monitro a rheoli. Mae WEFO hefyd wedi sefydlu cofrestr o eithriadau archwiliadau ar gyfer yr holl dystysgrifau a dderbyniwyd ers dechrau 2005. Bydd y gofrestr ar gael i holl dimau WEFO. Caiff ei defnyddio hefyd i nodi problemau cyffredin y mae angen mynd i'r afael â nhw ee darparu canllawiau/ nodiadau atgoffa i ymgeiswyr neu archwilwyr.

**vi) Bod pob cais ar gyfer diddymu grantiau ôl-weithredol yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan WEFO yn ddi-oed, ac yn y dyfodol fod terfyn amser rhesymol ar gyfer**

**hyn yn cael ei gynnwys yn y cytundeb grant.**

**Cytuno**

Mae'n rhaid i bob prosiect ôl-weithredol a gymeradwywyd yn 2003 gyflwyno eu cynigion (ar gyfer defnyddio'r arian a ryddhawyd) erbyn diwedd mis Mawrth 2005. Y terfyn amser ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd yn 2004 yw diwedd mis Mehefin 2005. Yn y dyfodol, bydd terfynau amser yn cael eu nodi mewn cytundebau grant, ac mae systemau wedi'u sefydlu i'w monitro.

**vii) Bod swyddogion y Cynulliad yn monitro a yw Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn cyflwyno hawliadau grant yn brydlon ac yn trafod unrhyw broblemau o ran perfformiad ar lefel uwch â'r sefydliadau perthnasol.**

**Cytuno**

Bydd WEFO yn mynd ati i ddatblygu ei threfniadau monitro ar gyfer ceisiadau hwyr a bydd cysylltiadau'n cael eu meithrin ar lefel uwch er mwyn trafod unrhyw broblemau. Cafodd cysylltiadau eu meithrin rhwng y Prif Weithredwyr a'r Cyfarwyddwyr Cyllid yn nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus ar ddiwedd 2004, a'r nod yw cwrdd â'r holl noddwyr mawr ar ddechrau 2005. Bydd copi o argymhellion y Pwyllgor Archwilio ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei anfon at Brif Weithredwyr yr holl Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

**viii) Er y cydnabyddir nad oes llawer o le i gwtogi yn sgîl gofynion presennol o ran technoleg a gwybodaeth, argymhellwn fod WEFO yn cymryd pob cam posibl i ysgafnhau'r baich ar noddwyr mewn perthynas â llenwi ffurflenni hawlio.**

**Cytuno**

Mae WEFO wrthi'n edrych ar ffyrdd o ysgafnhau'r baich ar noddwyr lle bo'n bosibl. Er enghraifft, diwygiwyd y ffurflen gais ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) fel bod llawer o'r meysydd data blaenorol yn cael eu cynnwys yn awtomatig o gronfa ddata WEFO cyn bod y ffurflen yn cael ei hanfon atynt. Bydd hyn yn helpu'r noddwyr wrth iddynt fynd ati i lenwi'r ffurflen. Hefyd, mae'r ffurflen newydd a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2004 ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gael ar ffurf Excel bellach er mwyn helpu'r noddwyr wrth iddynt fynd ati i'w llenwi.

Mae WEFO'n cydnabod bod angen ymgynghori â'r noddwyr wrth lunio ffurflenni, canllawiau a phrosesau, a bydd yn cydweithio â grwpiau o noddwyr i weithredu'r argymhelliad hwn, gan ddechrau yn gynnar yn 2005.

**ix) Dylai WEFO ystyried datblygu system o gosbau rhesymol a chymesur ar gyfer achosion pan fydd noddwyr yn methu'n rheolaidd â chyflwyno hawliadau’n brydlon.**

### Cytuno

Mae WEFO wrthi'n cryfhau ei weithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad y noddwyr.

Mae'r noddwyr wedi cael eu hysbysu eisoes y bydd eu perfformiad (a ydynt wedi cyflawni eu hallbwn, eu gwariant yn erbyn proffil y prosiect, a ydynt wedi cyflwyno ceisiadau yn brydlon ayb) yn cael ei ystyried wrth benderfynu a ddylai prosiectau gael eu cymeradwyo.

Mae pob llythyr a anfonir at noddwyr y prosiectau yn cynnig grant yn datgan bod WEFO'n gallu dal neu dynnu grant yn ôl os nad yw'r swm y mae'r noddwyr yn ei hawlio yn cyd-fynd â'r proffil ariannol cymeradwy. Fel a nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad (vii), bydd WEFO yn mynd ati i ddatblygu ei threfniadau monitro ar gyfer ceisiadau hwyr yn ystod 2005, ac yn defnyddio'r amodau a nodir yn y llythyr grant lle bo'n ofynnol.